# Canllaw: Rheoli Pysgodfa Cregyn Moch Cymru 2025 - 2026

**Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?**
Unrhyw un sy'n pysgota'n fasnachol am gregyn y moch â chewyll gan ddefnyddio cwch â modur ym mharth Cymru. (Gweler y map yn Atodiad 3)

**Beth yw diben y canllaw hwn?**
Mae'r canllaw'n esbonio sut y bydd Gweinidogion Cymru'n rheoli pysgodfa cregyn y moch. Mae'n esbonio sut i wneud cais am drwydded flynyddol, fydd yn angenrheidiol ar ôl 1 Mawrth 2022, i bysgota'n fasnachol am gregyn y moch â chewyll gan ddefnyddio cwch â modur ym mharth Cymru. Mae hefyd yn nodi'r hyn y bydd gofyn i ddeiliaid trwydded ei wneud i gydymffurfio â **Gorchymyn Trwyddedau Pysgota am Gregyn y Moch (Cymru) 2021**.

## Cynnwys


Canllaw: Rheoli Pysgodfa Cregyn Moch Cymru 2025 i 2026 .......... 1
Y Cefndir .......... 2
Ble galla' i gael mwy o fanylion? .......... 3
Gwneud cais am drwydded i bysgota am Gregyn y Moch ym mharth Cymru .......... 4
Y Terfyn Dalfa Blynyddol (ACL) ar gyfer Cregyn y Moch ym Mharth Cymru .......... 6
Terfyn Dalfa Misol Hyblyg (MCL) ar gyfer Cregyn y Moch ym Mharth Cymru .......... 7
Ffurflenni Dalfa Misol .......... 8
Amodau Trwydded .......... 11
Grŵp Cynghori Cymru ar Gregyn y Moch .......... 13
Geirfa .......... 15
Atodiadau .......... 16
Atodiad 1. Ni chaniateir dal cregyn moch â photiau yn yr ardal canlynol: .......... 16
Atodiad 2. Ni chaniateir defnyddio offer potio sy'n cael ei gadw'n sownd ag angor, a ddyluniwyd i ymdreiddio i waddodion, i ddal cregyn moch yn yr ardaloedd canlynol: .......... 17
Atodiad 3. Map o Barth Cymru .......... 27

## Y Cefndir

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru bod Gorchymyn Trwyddedau Pysgota am Gregyn y Moch (Cymru) 2021 wedi'i wneud. Diben y Gorchymyn yw gwarchod stociau cregyn y moch ym mharth Cymru a sicrhau cynaliadwyedd y bysgodfa drwy 'reolaeth addasol' sy'n ymateb i newidiadau yn yr amgylchedd neu lefelau'r stoc. O ganlyniad i'r Gorchymyn, bydd y system ar gyfer rheoli pysgodfeydd cregyn y moch yn newid, gan gynnwys:

1. **Trwyddedau** - bydd angen trwydded ar unrhyw un sy'n pysgota am gregyn y moch â chewyll ym mharth Cymru (Gweler y map yn Atodiad 3), hynny ar gyfer pob cwch a phob cyfnod trwydded. Codir ffi am y drwydded.

2. **Cyfnod y Drwydded** - bydd tymor pysgota blynyddol y drwydded yn para o 00:01 1 Mawrth bob blwyddyn tan 23:59 ar ddiwrnod olaf mis Chwefror y flwyddyn ganlynol.

3. **Terfyn Dalfa Blynyddol (ACL)** - defnyddir data dalfeydd a monitro gwyddonol i bennu Terfyn Dalfa Blynyddol (ACL) ar gyfer yr holl gychod trwyddedig. **4,592 tunnell** fydd y terfyn blynyddol ar gyfer cyfnod trwydded sy'n dechrau ar 1 Mawrth 2025. Wedi hynny, gall newid yn ôl y dystiolaeth.

4. **Terfyn Dalfa Misol Hyblyg (MCL)** – Bydd pob deiliad trwydded yn cael yr un MCL mewn unrhyw fis penodol. Ar gyfer cyfnod y drwydded gyntaf sy'n dechrau ar 1 Mawrth 2025, y terfyn hyblyg misol ar gyfer mis Mawrth fydd **50 tunnell** ac, os gwelir bod angen, caiff y terfyn ei newid yn y misoedd wedi hynny i sicrhau na eir dros yr ACL a bod manteision y bysgodfa wedi'u rhannu dros gyfnod y drwydded yn unol â phatrymau pysgota hanesyddol. (Gweler *Pysgodfa cregyn y moch – y fethodoleg ar gyfer cyfrif terfynau dal* dolen ar LLYW.CYMRU Ffigur 1 a Ffigur 3 ar dudalen 12 ac 13).

5. **Ffurflenni Dalfa Misol –** Bydd gofyn i bob deiliad trwydded gyflwyno ffurflen gywir am ddalfa pob cwch trwyddedig ar ddiwedd pob mis fel amod o'r drwydded hyd yn oed os na fydd wedi bod yn pysgota. Mae'n hanfodol ein bod yn cael gwybodaeth gywir am ddalfeydd er mwyn gallu rheoli'r bysgodfa'n llwyddiannus ac i gadw golwg ar berfformiad y bysgodfa a helpu i benderfynu ar MCL y mis canlynol. Os na ddaw manylion cywir ac amserol am ddalfeydd i law, efallai y bydd yn rhaid i reolwyr pysgodfeydd gymryd camau mwy rhagofalus nag sydd eu hangen e.e. gostwng yr MCL cyn bod rhaid.

## Ble galla' i gael mwy o fanylion?

Cewch ragor o wybodaeth ar wefan LLYW.CYMRU gan gynnwys dolenni i :-

- Gwneud cais am drwydded i bysgota am gregyn y moch gyda chewyll ym mharth Cymru
- Y Terfyn Dalfa Blynyddol a'r Terfyn Dalfa Misol cyfredol
- Y Ffi Bresennol am Drwydded
- Anfonwch fanylion eich dalfa fisol o gregyn y moch
- Gofyn am gael newid y cwch sydd ar eich trwydded bysgota am gregyn y moch
- Pysgodfa cregyn y moch – y fethodoleg ar gyfer cyfrif terfynau dal
- Pysgodfa cregyn y moch – adroddiadau blynyddol
- Gorchymyn Trwyddedau Pysgota am Gregyn y Moch (Cymru) 2021
- Gorchymyn Pysgota am Gregyn Moch (Cymru) (Diwygio) 2019
- Gorchymyn Pysgota am Gregyn Moch (Cymru) 2019
- Ymgynghoriadau am bysgodfa cregyn y moch
- Pysgodfa cregyn y moch – hysbysiad preifatrwydd
- Grŵp Cynghori Cymru ar Gregyn y Moch - Cylch Gorchwyl
- Grŵp Cynghori Cymru ar Gregyn y Moch - Cofnodion cyfarfodydd

Fel arall, e-bostiwch Lywodraeth Cymru yn Fisheries.Management@llyw.cymru.

Neu ffoniwch: - 0300 025 3500.

## Gwneud cais am drwydded i bysgota am Gregyn y Moch ym mharth Cymru

**Beth yw diben y drwydded?**
Mae'r drwydded yn rhoi'r hawl i ddeiliad y drwydded a chapten/meistr cwch (os yw'n wahanol), i bysgota am gregyn y moch â chewyll ym mharth Cymru (Gweler y map yn Atodiad 3) dros gyfnod un drwydded a chydag un cwch pysgota trwyddedig.

**Pwy sy'n cael gwneud cais am drwydded?**
Rhaid i bob ymgeisydd fod yn berchennog/siartrwr cwch pysgota sydd wedi'i drwyddedu i bysgota yn y DU. Os oes mwy nag un yn berchen ar y cwch, rhaid gwneud un cais sy'n cynnwys yr holl unigolion perthnasol. Ni chaiff capten nad yw'n berchen ar y cwch wneud cais am drwydded ar gyfer y cwch hwnnw.
**Nid oes angen i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi pysgota yn y bysgodfa o'r blaen.**

**A oes unrhyw amgylchiadau lle nad oes angen trwydded?**
Mae angen trwydded cregyn moch flynyddol ar bob cwch sy'n defnyddio cewyll i ddal cregyn y moch ym mharth Cymru ac eithrio'r rhai:
- Sydd o dan 10 metr o hyd ac nad oes ganddynt injan neu fodur trydan i yrru'r cwch, neu
- A ddefnyddir yn gyfan gwbl at ddibenion pysgota hamdden, yn amodol ar ddeddfwriaeth briodol.

**Sut ydw i'n gwneud cais am drwydded cregyn y moch ar gyfer parth Cymru?**
Rhaid i ymgeiswyr wneud cais am drwyddedau, gwneud taliad a llenwi ffurflenni dalfa misol. Gellir gweld y gwasanaeth yma.

**Pryd ca i wneud cais am drwydded cregyn y moch?**
Bydd y cyfnod ymgeisio am drwydded yn agor ym mis Rhagfyr 2024 tua 4 mis cyn dechrau cyfnod y drwydded a gellir ei chyflwyno unrhyw adeg tan 31 Ionawr 2025.

**Pryd mae trwyddedau'n dechrau?**
Bydd tymor pysgota blynyddol y drwydded neu gyfnod y drwydded yn para o 00:01 1 Mawrth 2025 bob blwyddyn tan 23:59 ar ddiwrnod olaf mis Chwefror 2026.

**Sawl trwydded sydd ar gael?**
Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar nifer y trwyddedau a roddir, ond yr ACL fydd yn pennu faint o gregyn y moch y caiff y fflyd o gychod trwyddedig eu dal.

**Pam bod ffi am drwydded?**

Codir ffi i adlewyrchu costau rheoli a gweinyddu'r bysgodfa (heb gynnwys mesurau gorfodi) ac arolygon asesu stoc. Mae adfer costau yn y modd hwn yn cyd-fynd â'r egwyddorion ar gyfer *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru (2016)*.
Bydd yr arian yn sicrhau bod gennym ddata o ansawdd da fel sail i reoli'r bysgodfa. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n flynyddol ym mis Tachwedd gyda'r rhai sydd â buddiant yn y bysgodfa ar dalu'r ffi arfaethedig am drwydded, gan ddarparu dadansoddiad o'r costau a gwmpesir gan y ffi.

**Sut cyfrifwyd y ffi ar gyfer y cyfnod trwydded 2025-26?**
Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y costau'n cael eu cyfrifo'n gywir ac yn gymesur. Ein nod fydd gweithio tuag at adennill costau llawn, tra hefyd yn ceisio nodi effeithlonrwydd a lleihau costau i bysgotwyr.

Mae cynnydd chwyddiant o 1.7% wedi'i gymhwyso i ffi trwydded 2024-25 o £304. Ffi y drwydded fydd £394. Byddai hyn yn golygu adennill costau i 23% o gost yr arolwg ac mae'n gyfwerth â 23% o bris cyfartalog tunnell o gregyn moch.

**Faint yw'r ffi drwydded?**
Ar gyfer cyfnod y drwydded 1 Mawrth 2025 – 28 Chwefror 2026, bydd y ffi drwydded yn **£309** a rhaid ei thalu'n llawn cyn y gellir rhoi trwydded. Ni waeth pryd y gwneir cais, bydd ffi'r drwydded yr un fath.

**Sut y gellir talu ffi'r drwydded?**
Yn ystod y broses o wneud cais cewch eich ail-gyfeirio at **GOV.UK Pay** a fydd yn gofyn am daliad ar gyfer ffi'r drwydded.

**Pryd fyddaf yn cael fy nhrwydded?**
Ni fydd deiliaid trwydded yn derbyn trwydded gorfforol. Bydd hysbysiad yn cael ei anfon gan ddarparu'r rhif cyfeirnod unigryw a hyd y drwydded. Gall deiliaid trwyddedau wirio statws trwydded trwy fewngofnodi i'r system drwyddedu. Byddwn yn cyhoeddi rhif trwydded i chi ym mis Chwefror 2025.

**A allaf ganslo fy nhrwydded a chael ad-daliad?**
Mae gan ymgeiswyr 14 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddwyd y drwydded i ofyn am ad-daliad cyn belled nad ydynt wedi pysgota am gregyn y moch, gan ddefnyddio'r drwydded, yn ystod y cyfnod hwnnw o 14 diwrnod.

**Am faint y bydd trwydded yn para?**
Bydd pob trwydded yn dod i ben ar ddiwedd cyfnod y drwydded, sef am 23:59 ar ddiwrnod olaf mis Chwefror, waeth pryd y caiff ei rhoi. Nid oes modd adnewyddu trwydded. Mae angen trwydded newydd ar gyfer pob cyfnod trwyddedu sy'n dilyn. Ni roddir trwydded am gyfnod o lai na mis.

**I bwy mae'r drwydded yn cael ei rhoi?**

Rhoddir y drwydded i berchennog cwch cymwys sy'n gwneud cais ac yn talu'r ffi. Os oes mwy nag un perchennog, bydd pob un yn cael copi o’r drwydded. Ni chewch drosglwyddo trwydded.

**A ga i newid y cwch a enwir ar fy nhrwydded?**

Os bydd deiliad y drwydded yn cael cwch bysgota newydd, caiff newid y cwch a enwir ar y drwydded drwy lenwi ffurflen *Pysgodfa Cregyn y Moch - newid y cwch ar eich trwydded* sydd ar gael ar wefan LLYW.CYMRU.
Caiff y drwydded ei diweddaru am ddim o fewn 14 diwrnod gwaith.
**Ni chewch ddefnyddio’r cwch newydd i bysgota am gregyn y moch ym mharth Cymru nes y bydd y system drwyddedu wedi ei diweddaru.**

**Beth ddylwn i ei wneud ar ôl i mi gael rhif fy nhrwydded?**

Rhaid i'r ymgeisydd, capten y cwch a’r criw ymgyfarwyddo ag amodau'r drwydded ac unrhyw ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â physgota am gregyn y moch ym mharth Cymru. Mae perchnogion, siartrwyr  a chapteiniaid/meistri cychod yn atebol ar y cyd ac fel unigolion am unrhyw achos o dorri'r ddeddfwriaeth.

Rhaid cadw copi o rif y drwydded ar y cwch trwyddedig a sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio bob amser yn ystod taith bysgota am gregyn y moch ym mharth Cymru. Byddai peidio â gwneud hynny’n torri amodau’r drwydded a gall arwain at gamau gorfodi.

## Y Terfyn Dalfa Blynyddol (ACL) ar gyfer Cregyn y Moch ym Mharth Cymru

**Beth yw'r ACL?**

Yr ACL yw’r holl gregyn y moch y caiff cwch trwyddedig eu dal yn ystod cyfnod y drwydded. Diben yr ACL yw gwarchod stoc cregyn y moch a sicrhau bod y bysgodfa'n gynaliadwy drwy atal ei gorbysgota. Caiff yr ACL ei bennu cyn dechrau cyfnod pob trwydded a bydd yn aros yr un fath oni bai bod mwy nag ACL y drwydded flaenorol yn cael eu dal, yn hwyr yng nghyfnod y drwydded honno.
Caiff Gweinidogion Cymru atal pob trwydded *naill ai* pan gredant nad yw lefelau pysgota cregyn y moch ym mharth Cymru’n gynaliadwy *neu* os bydd argyfwng.
Pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu y gall pysgotwyr ailddechrau pysgota ar ôl penderfyniad i atal pysgota, gallent newid yr ACL blaenorol.

**Sut mae'r ACL yn cael ei bennu?**

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Brifysgol Bangor i ddatblygu methodoleg ar gyfer cyfrif yr ACL yn seiliedig ar dystiolaeth o’r bysgodfa a thystiolaeth wyddonol. Cewch

ddisgrifiad manwl o'r fethodoleg yn *Pysgodfa Cregyn y Moch - y fethodoleg ar gyfer cyfrif terfynau dal* ar wefan [LLYW.CYMRU](#).

I grynhoi:
Yr ACL yw'r cyfanswm cyfunol o gregyn moch y gellir ei gymryd gan yr holl gychod a ganiateir yn ystod cyfnod trwydded. Pwrpas yr ACL yw gwarchod y stoc cregyn moch a sicrhau bod y bysgodfa yn gynaliadwy.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Brifysgol Bangor i ddatblygu methodoleg ar gyfer cyfrifo'r ACL. Yng nghyfnod trwydded 2023/24, gostyngwyd llinell sylfaen ACL o 5,298 tunnell 10% i **4,768 tunnell**, yn dilyn cyfres gymysg o ganlyniadau dangosyddion sy'n seiliedig ar faint.

**Beth yw’r ACL ar gyfer cyfnod trwydded 2025-26?**
Er mwyn llywio'r ACL a'r MCL ar gyfer 2025-26, cwblhaodd Prifysgol Bangor arolwg asesiad stoc cregyn moch Adroddiadau | Pysgodfeydd Cynaliadwy Cymru | Prifysgol Bangor ym mis Hydref 2024.

Bydd gostyngiad o 5% i’r ACL o 4,768 tunnell i **4,529 tunnell**.

## Terfyn Dalfa Misol Hyblyg (MCL) ar gyfer Cregyn y Moch ym Mharth Cymru

**Beth yw MCL?**
MCL yw uchafswm cregyn y moch y caiff unrhyw gwch trwyddedig ei gymryd â chewyll ym mharth Cymru mewn mis penodol. Bydd pob cwch trwyddedig yn cael yr un MCL.
Caiff Gweinidogion Cymru atal pob trwydded *naill ai* pan gredant nad yw lefelau pysgota cregyn y moch ym mharth Cymru’n gynaliadwy *neu* os bydd argyfwng.
Pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu y gall pysgotwyr ailddechrau pysgota ar ôl penderfyniad i atal pysgota, gallent newid yr MCL blaenorol.

**Beth yw diben yr MCL?**
Ar ôl penderfynu ar yr ACL i sicrhau cynaliadwyedd y bysgodfa, mae'n bwysig nad yw’r fflyd cychod yn dal mwy na’r ACL. Bydd yr MCL yn cael ei ddefnyddio i reoli faint o gregyn y moch y bydd cychod trwyddedig yn cael ei ddal bob mis i sicrhau nad ydynt yn dal mwy na’r ACL a bod manteision y bysgodfa yn cael eu rhannu dros gyfnod y drwydded yn unol â phatrymau pysgota hanesyddol. (Gweler *Pysgodfa*

*Cregyn y Moch - y fethodoleg ar gyfer cyfrif terfynau dal* Ffigur 2 a Ffigur 3 ar dudalen 12 ac 13 dolen ar LLYW.CYMRU).

**Sut y bydda' i'n cael yr MCL misol?**
Rhaid i ddeiliad y drwydded gyflwyno ffurflen dalfa gywir ar ddiwedd pob mis fel amod o'r drwydded, hyd yn oed os na fydd wedi bod yn pysgota. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gadw golwg ar berfformiad y bysgodfa a helpu i benderfynu ar MCL y mis canlynol. Bydd yr MCL presennol yn cael ei ddangos ar dudalen y Bysgodfa Cregyn Moch ar wefan LLYW.CYMRU. Bydd deiliad y drwydded yn cael gwybod trwy e-bost pan fydd yr MCL yn newid.

**Beth sy'n digwydd os gwna i ddal mwy na'r MCL?**
Mae dal mwy na'r MCL yn torri un o amodau'r drwydded a gall arwain at gamau gorfodi. Os bydd deiliaid trwydded yn dal mwy na'u MCL i'r graddau bod hynny'n creu perygl y caiff mwy na'r ACL ei ddal, caiff MCL *pob* deiliad trwydded ei leihau.

**Sut bydd yr MCL yn cael ei bennu?**
Comisiynodd Llywodraeth Cymru Brifysgol Bangor i ddatblygu methodoleg gadarn ar gyfer gallu newid MCLs yn ôl yr ACL a phatrymau pysgota hanesyddol gan ddefnyddio data dalfeydd misol. Cewch ddisgrifiad manwl o'r fethodoleg yn *Pysgodfa Cregyn y Moch - y fethodoleg ar gyfer cyfrif terfynau dal* dolen ar LLYW.CYMRU.

I grynhoi:
Ar 1 Mawrth, ar ddechrau cyfnod pob trwydded, bydd MCL cychwynnol o **50 tunnell** fesul cwch trwyddedig yn cael ei gyhoeddi oni bai bod tystiolaeth i awgrymu bod angen terfyn is. Yn y misoedd sy'n dilyn, defnyddir y ffurflenni dalfa misol a lenwir gan ddeiliaid trwydded i asesu'r cynnydd at yr ACL o'i gymharu â phatrymau pysgota hanesyddol. Gellir lleihau neu gynyddu'r MCL bob mis, yn ôl yr angen.

**Beth yw'r MCL ar gyfer cyfnod trwydded 2025-26?**
Ar hyn o bryd mae'r MCL ar 1 Mawrth yn **50 tunnell** cychwynnol oni bai bod tystiolaeth i awgrymu terfyn gwahanol. Yn ystod y misoedd canlynol, bydd ffurflenni dalfa misol gan ddeiliaid trwyddedau yn cael eu defnyddio i asesu cyfradd y cynnydd tuag at y ACL. Mae'r cynnig ar gyfer yr MCL ar gyfer **2025-2026** i aros yr un fath.

## Ffurflenni Dalfa

Bydd gwybodaeth gywir am faint sy'n cael ei ddal yn hanfodol i reoli'r bysgodfa'n llwyddiannus ac i gadw golwg ar berfformiad y bysgodfa a helpu i benderfynu ar MCL y mis canlynol.

Bydd gofyn i bob deiliad trwydded gyflwyno ffurflen gywir am ddalfa pob cwch trwyddedig erbyn 23:59 ar ddiwrnod olaf pob mis fel amod o'r drwydded hyd yn oed os na fydd wedi bod yn pysgota. Defnyddir yr wybodaeth i gadw golwg ar berfformiad y bysgodfa a helpu i benderfynu ar MCL y mis canlynol. **Byddai peidio â gwneud hynny'n torri amodau'r drwydded a gall arwain at gamau gorfodi.**

Bydd cregyn y moch sy'n cael eu dal fel sgil-ddalfa pysgotwyr eraill yn cael eu cofnodi yn eu gofynion cofnodi/glanio dalfeydd nhw a gallent gael eu cyfrif ar gyfer yr ACL.

**Rhaid i ddeiliaid trwydded barhau i gydymffurfio â'r holl ofynion cofnodi dalfeydd/datgan glaniadau eraill fel yr ap dal a llyfrau log ac ati.**

**Sut mae llenwi'r ffurflen dalfa?**
Dylech lenwi'r ffurflen dalfa a'i chyflwyno drwy fewngofnodi i'ch cyfrif ar gwasanaeth trwyddedau pysgota a dalfeydd.

Dylech gyflwyno ffurflen hyd yn oed os nad ydych wedi pysgota y mis hwnnw. Os ydych angen rhagor o ganllawiau ar gyflwyno ffurflen, cysylltwch â Fisheries.Management@llyw.cymru.

**Gallwch gyflwyno mwy nag un ffurflen bob mis yn cofnodi manylion daliadau. Dylech gwblhau un ffurflen ar gyfer pob taith bysgota.**
Dylech lenwi pob ffurflen erbyn 23:59 ar ddiwrnod olaf pob mis.
Os cewch unrhyw drafferth i'w llenwi neu i gyflwyno ffurflen eich dalfa, cysylltwch â Llywodraeth Cymru ar Fisheries.Management@llyw.cymru.

**Pa gregyn y moch y mae'n rhaid eu cynnwys yn y ffurflen dalfa fisol?**
Rhaid nodi'r holl gregyn moch sy'n cael eu dal â chewyll ym Mharth Cymru ar y ffurflen, hyd yn oed os byddwch yn eu glanio mewn porthladd y tu allan i Gymru.
At ddibenion gorfodi, os ydych chi'n pysgota am gregyn y moch â chewyll ym mharth Cymru a'r tu allan iddo (Gweler y map yn Atodiad 3) yn ystod un daith bysgota, ystyrir bod yr holl gregyn moch sydd ar fwrdd y cwch wedi'u dal ym mharth Cymru a rhaid eu nodi ar y ffurflen dalfa fisol a'u cymryd o'ch MCL.

**Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod manylion y ddalfa'n gywir?**
Bydd ffurflenni dalfeydd yn cael eu harchwilio yn erbyn data llyfrau log a data glanio a gwerthu i sicrhau bod unrhyw wybodaeth anghywir yn cael ei gweld a'i chynrychioli yn MCL y mis canlynol. Mae cyflwyno ffurflenni dalfa anghyflawn, anghywir neu ffug yn torri amodau'r drwydded a gall arwain at gamau gorfodi.
**Os na ddaw manylion cywir ac amserol am ddalfeydd i law, efallai y bydd yn rhaid i reolwyr pysgodfeydd gymryd camau mwy rhagofalus nag sydd eu hangen e.e. gostwng yr MCL cyn bod rhaid.**

## Amodau Trwydded

Mae amodau ynghlwm wrth drwyddedau pysgota am gregyn y moch ym mharth Cymru (Gweler y map yn Atodiad 3) sy'n rhoi gofynion statudol ar berchnogion/siartrwyr cychod a chapteiniaid/meistri llongau mewn perthynas â physgodfa cregyn y moch. Rhaid i bob deiliad trwydded gadw at yr amodau hyn. Caiff Llywodraeth Cymru, ar ôl ymgynghori, ychwanegu, dileu neu newid amodau trwyddedau o bryd i'w gilydd er mwyn gwarchod stociau cregyn y moch a sicrhau cynaliadwyedd y bysgodfa.

Mae amodau cyfredol trwyddedau yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid trwydded:

1. Rhaid i'r gweithgareddau a awdurdodir gan y drwydded hon gael eu cyflawni yn unol â darpariaethau Gorchymyn Trwydded Bysgota Cregyn Moch (Cymru) 2021.
2. Mae'r drwydded hon ond yn rhoi'r hawl i ddeiliad y drwydded (y person awdurdodedig) a/neu sgip/meistr cychod ar ran y perchennog(ion)/siartrwr(wyr) a enwir yn y drwydded hon i gymryd cregyn moch (Buccinum undatum) gyda photiau gan ddefnyddio'r llestr a enwir yn y drwydded hon.
3. Ni ellir trosglwyddo'r drwydded hon.
4. Mae deiliad y drwydded yn gyfrifol am wirio a throsglwyddo i sgip/meistr y llong a chriw y Terfyn Dal Misol hyblyg (MCL) pan fydd ar gael ar LLYW.CYMRU bob mis.
5. Ni ddylid dal mwy na’r Terfyn Dal Misol (MCL).
6. Rhaid i ddeiliad y drwydded wneud adroddiad llawn a chywir ("Manylion Daliadau") o'r holl Gregyn Moch (Buccinum undatum) wedi'u pysgota a'u cymryd gyda photiau o barth Cymru erbyn 23:59 ar ddiwrnod olaf pob mis, hyd yn oed os nad ydynt wedi pysgota.
7. Rhaid cwblhau'r Manylion Daliadau gan ddefnyddio'r ddolen a ddarperir ar gwasanaeth.trwyddedaupysgotaadalfeydd.llyw.cymru. Ar gyfer pob diwrnod, rhaid i hyn gynnwys: pwysau'r ddalfa a gedwir (Kg), nifer y potiau a godwyd, amser socian (diwrnodau) a lleoliad gweithgarwch pysgota (Is-Betryal ICES).
8. Os bydd llong yn pysgota y tu mewn i barth Cymru a'r tu allan i barth Cymru yn ystod un daith bysgota, rhaid cynnwys yr holl gregyn moch a gymerwyd ar y daith honno yn y Manylion Daliadau a chaiff ei dynnu o Derfyn Dal Misol (MCL) y cychod.
9. Rhaid i ddeiliad y drwydded ond cadw a glanio cregyn moch cyfan yn eu cregyn.
10. Rhaid i gopi o rif y drwydded (papur neu electronig) fod ar gael i'w harchwilio gan Swyddogion Gorfodi Morol ar y cwch a enwir.
11. Rhaid i ddeiliad y drwydded hysbysu Gweinidogion Cymru gan ddefnyddio'r ffurflen "Trwydded Cregyn Moch - Newid Cwch" gan ddefnyddio'r ddolen a

ddarperir ar LLYW.CYMRU os bydd y manylion sy'n ymwneud â'r cwch a enwir a nodwyd yn y drwydded yn newid ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y drwydded.

12. Rhaid i ddeiliad y drwydded gydymffurfio ag unrhyw atal dros dro o hysbysiadau pysgota ym mharth Cymru a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

*Amodau sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'Rheoliadau HRA' fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019/579).*

13. **Ni chaniateir dal cregyn moch** mewn ardal lle mae maerl a nodweddir gan y gwymon coch *Phymatolithon calcareum,* a ddisgrifir yn Atodiad 1.1.
14. **Ni chaniateir defnyddio offer potio sy'n cael ei gadw'n sownd ag angor, a ddyluniwyd i ymdreiddio i waddodion, i ddal cregyn moch** yn yr ardaloedd lle mae morwellt *(Zostera marina),* a ddisgrifir yn Atodiad 2.1.1 a 2.1.2.
15. **Ni chaniateir defnyddio offer potio sy'n cael ei gadw'n sownd ag angor, a ddyluniwyd i ymdreiddio i waddodion, i ddal cregyn moch** mewn a ardaloedd lle mae cwiliau môr*(Virgularia mirabilis*) a megafauna sy'n turio biotop, a ddisgrifir yn Atodiad 2.2.1 a 2.2.2.
16. **Ni chaniateir defnyddio offer potio sy'n cael ei gadw'n sownd ag angor, a ddyluniwyd i ymdreiddio i waddodion, i ddal cregyn moch** mewn ardaloedd lle mae riffiau marchfisglod*(Modiolus modilous*), a ddisgrifir yn Atodiad 2.3.

## Grŵp Cynghori Cymru ar Gregyn y Moch

**Sut bydd Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu â physgotwyr ac yn eu cynnwys wrth reoli cregyn y moch yng Nghymru?**
Y prif fecanwaith ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid fydd Grŵp Cynghori Cymru ar Gregyn y Moch (**WWAG**).

**Pryd bydd y grŵp yn cyfarfod?**
Bydd WWAG yn cyfarfod o leiaf ddwywaith bob blwyddyn ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i lywio a datblygu'r gwaith o reoli'r bysgodfa.
Gellir galw cyfarfodydd arbennig ychwanegol os bydd angen.

Bydd WWAG yn cyfarfod ddechrau **y gwanwyn a'r hydref bob blwyddyn** i drafod datblygiadau'r bysgodfa, canlyniadau arolygon stoc gwyddonol, yr adroddiad cryno blynyddol a'r ACL drafft, amodau'r drwydded a ffi'r drwydded ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac unrhyw broblemau eraill posibl.

**Pwy fydd aelodau'r WWAG ac a ga' i gymryd rhan?**
Rhaid i aelodau'r grŵp gynrychioli amrywiaeth o fuddiannau gan gynnwys pysgotwyr, eu cymdeithasau, cynrychiolwyr y diwydiant, gwyddonwyr pysgodfeydd a rheolwyr pysgodfeydd.
Ni ddylai'r grŵp fod yn rhy fawr i allu gweithio'n fanwl gyda'i gilydd a rhaid wrth bresenoldeb cyson.
Mae ar Lywodraeth Cymru angen pobl ar y grŵp a all ddangos eu bod yn cynrychioli barn mudiad cyfansoddedig, nid eu barn nhw eu hunain yn unig, a bydd yn penodi aelodau i gynrychioli'r canlynol:

- Cadeirydd
- 6 Physgotwr (sy'n cynrychioli busnesau mawr a bach sy'n pysgota am gregyn y moch)
- 2 Brynwr/Prosesydd
- 1 Gwyddonydd Pysgodfeydd
- 3 o Swyddogion Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru (Rheoli, Gorfodi, Gwyddoniaeth)
- 1 Aelod o Gymdeithas Pysgotwyr Cymru
- 1 Cynrychiolydd Cyswllt Amgylchedd Cymru
- 1 Cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gwahoddir pobl eraill i siarad mewn cyfarfodydd ar bynciau penodol yn ôl y gofyn.

**Sut bydd y grŵp yn cyfarfod?**

Bydd y grŵp yn cyfarfod ar lwyfan rhithwir fel Microsoft Teams. Bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu pob cyfarfod ac yn anfon manylion at bob aelod o'r grŵp.

**A oes tâl ariannol am ymuno â'r grŵp?**
Nac oes.

**Sut bydd effeithiolrwydd y grŵp yn cael ei fonitro?**
Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effeithiolrwydd y grŵp a bydd yn adolygu aelodaeth a phresenoldeb bob blwyddyn.

**Sut y caiff canlyniadau pob cyfarfod eu cyfleu i'r gymuned ehangach?**
Bydd cofnodion cyfarfodydd cyffredinol ar gael i'w gweld ar dudalen Grŵp Cynghori Cymru ar Gregyn y Moch ar LLYW.CYMRU o fewn pythefnos i bob cyfarfod. Os oes neges bwysig gan y grŵp, bydd pob deiliad trwydded yn cael e-bost a chaiff y neges ei rhoi ar y wefan cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod.

**Cynhwysiant ehangach.**
Er mwyn helpu'r WWAG i gyfathrebu â'r gymuned bysgota ehangach, trefnir cyfarfod agored os bydd angen trosglwyddo neges bwysig. Bydd croeso i bawb sy'n dymuno bod yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn.

**Amrywiaeth.**
Mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion sy'n ymwneud ag un o'r meysydd a restrir uchod i fynegi diddordeb mewn dod yn aelod o'r WWAG.

## Geirfa

**Capten/meistr** cwch perthnasol - y person sydd am y tro yn rheoli'r cwch.

**Cawell -** unrhyw bot, crimp, trap neu gawell a ddefnyddir i ddal cregyn y moch

**Cregyn y moch** - pysgod cregyn o'r rhywogaeth *Buccinum undatum*

**Cwch perthnasol** – cwch pysgota sydd

Wedi'i drwyddedu o dan adran 15 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020 neu gwch
Wedi'i drwyddedu o dan adran 17 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020

**Cyfnod Trwydded** – y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Mawrth bob blwyddyn tan ddiwedd mis Chwefror y flwyddyn ganlynol

**Dalfa** – cregyn y moch sy'n cael eu dal (eu cymryd a'u cadw) ym mharth Cymru

**Parth Cymru** - rhanbarth glannau Cymru a rhanbarth môr mawr Cymru (Gweler y map yn Atodiad 3)

**Perchennog -** yn cynnwys siartrwr

**Rhanbarth glannau Cymru** - yr ystyr a roddir i "inshore region" yn adran 322 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009

**Rhanbarth môr mawr Cymru** - yr ystyr **a** roddir i "offshore region" yn adran 322 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009

**Terfyn Dalfa Blynyddol (ACL)** – y swm mwyaf o'r holl gregyn y moch y caiff yr holl gychod perthnasol a awdurdodir gan drwydded yn ystod cyfnod y drwydded eu dal rhyngddynt ym Mharth Cymru

**Terfyn Dalfa Misol (MCL)** – y swm mwyaf o gregyn y moch y caiff pob cwch trwyddedig ei ddal â chewyll ym mharth Cymru mewn mis penodol.

**Trwydded** - trwydded a roddir gan Weinidogion Cymru

# Atodiadau

## Atodiad 1. Ni chaniateir dal cregyn moch â photiau yn yr ardal canlynol:

**1.1** Yr ardal o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Morol (ACA) Sir Benfro a nodir yn y map isod. Yr ardal rhwng ffin yr arfordir ar benllanw cymedrig y gorllanw a llinell rhwng y cyfesurynnau canlynol:

51º 42.60’N 05º 05.29’W

51º 42.67’N 05º 06.01’W

51º 42.43’N 05º 06.45’W

51º 42.11’N 05º 06.43’W


51º 42.12’N 05º 05.89’W

51º 41.81’N 05º 05.86’W

51º 41.95’N 05º 04.10’W

51º 42.14’N 05º 03.92’W

51º 42.46’N 05º 04.11’W



## Atodiad 2. Ni chaniateir defnyddio offer potio sy'n cael ei gadw'n sownd ag angor, a ddyluniwyd i ymdreiddio i waddodion, i ddal cregyn moch yn yr ardaloedd canlynol:

**2.1.1** Yr ardaloedd o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau a nodir yn y mapiau isod. Yr ardal rhwng ffin yr arfordir ar benllanw cymedrig y gorllanw a llinell rhwng y cyfesurynnau canlynol:


52º 50.09’N 04º 29.62’W

52º 50.36’N 04º 29.36’W

52º 50.48’N 04º 29.10’W


52º 50.42’N 04º 28.98’W

52º 50.02’N 04º 29.48’W




Yr ardal rhwng ffin yr arfordir ar benllanw cymedrig y gorllanw a llinell rhwng y cyfesurynnau canlynol:

52º 53.54’N 04º 19.53’W
52º 53.51’N 04º 19.38’W
52º 53.54’N 04º 19.25’W
52º 53.72’N 04º 19.00’W
52º 53.95’N 04º 19.21’W
52º 53.99’N 04º 19.53’W




Yr ardal rhwng ffin yr arfordir ar benllanw cymedrig y gorllanw a llinell rhwng y cyfesurynnau canlynol:

52º 54.92’N 04º 14.13’W
52º 54.81’N 04º 13.87’W
52º 54.78’N 04º 13.25’W
52º 54.35’N 04º 11.85’W
52º 54.75’N 04º 11.40’W




**2.1.2** Yr ardal o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Morol Sir Benfro a nodir yn y mapiau isod. Yr ardal rhwng ffin yr arfordir ar benllanw cymedrig y gorllanw a llinell rhwng y cyfesurynnau canlynol:

51º 42.65’N 05º 06.89’W
51º 42.63’N 05º 06.70’W
51º 42.84’N 05º 06.62’W
51º 42.85’N 05º 06.77’W




Yr ardal rhwng ffin yr arfordir ar benllanw cymedrig y gorllanw a llinell rhwng y cyfesurynnau canlynol:

51º 42.46’N 05º 04.11’W
51º 42.24’N 05º 03.95’W
51º 42.40’N 05º 02.20’W
51º 42.58’N 05º 01.84’W



Yr ardal rhwng ffin yr arfordir ar benllanw cymedrig y gorllanw a llinell rhwng y cyfesurynnau canlynol:


51º 41.42’N 05º 05.18’W
51º 41.50’N 05º 05.15’W
51º 41.47’N 05º 04.78’W
51º 41.37’N 05º 04.55’W
51º 41.30’N 05º 04.62’W



Yr ardal rhwng ffin yr arfordir ar benllanw cymedrig y gorllanw a llinell rhwng y cyfesurynnau canlynol:


51º 44.38’N 05º 16.86’W

51º 44.31’N 05º 16.64’W



**2.2.1** Dim o fewn 100 metr i'r nodweddion yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau a nodir yn y mapiau isod ac yn y cyfesurynnau canlynol:

52º 50.79'N 04º 19.02'W




**2.2.2** Dim o fewn 100 metr i'r nodweddion yn Ardal Cadwraeth Arbennig Morol Sir Benfro a nodir yn y mapiau isod ac yn y cyfesurynnau canlynol:

51° 47.48’N 05° 11.21’W

a

51° 47.45’N 05° 15.32’W



**2.3** Yr ardal o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Morol Pen Llŷn a'r Sarnau a nodir yn y map isod. Yr ardal o fewn y ffin a wneir drwy dynnu llinell rhwng y cyfesurynnau canlynol:

52º 55.68’N 04º 41.86’W


52º 58.19’N 04º 37.39’W

52º 58.00’N 04º 37.08’W

52º 57.53’N 04º 37.91’W

52º 56.77’N 04º 36.79’W

52º 54.83’N 04º 40.40’W



## Atodiad 3. Map o Barth Cymru

